**CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD**
**CYFARFOD GWEITHREDOL Y GANGEN**

**Dyddiad y Cyfarfod:** Dydd Mawrth 19 Ionawr 2010

## COFNODION

**Presennol:**
Janet Ryder AC, Cadeirydd
Mike German AC
Jeff Cuthbert AC
Alun Cairns AC

Claire Clancy, Ysgrifennydd
Natalie Drury-Styles, Rheolwr Gwasanaethau Allgymorth a Chysylltiadau Rhyngwladol
Al Davies, Ysgrifenyddiaeth

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler, Is-lywydd y Gangen.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF - papur CPA 05-09M

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cytuno ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

## 3. MATERION SY'N DEILLIO O'R COFNODION

Dim.

## 4. EDRYCH AR WEITHGAREDDAU DIWEDDAR

**<u>Atborth o ddigwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol</u>**

- *2 Rhagfyr 2009 – Derbyniad y Gymanwlad yn 60 oed*
  Dywedodd y Cadeirydd fod y Gangen wedi nodi achlysur y Gymanwlad yn 60 oed gyda derbyniad min nos yn y Senedd. Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda dros 130 o westeion yn cynrychioli dros 20 o wledydd y Gymanwlad.

  Roedd y Cadeirydd am gofnodi ei chydnabyddiaeth a'i diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson yn cynnwys Tîm Digwyddiadau'r Cynulliad a'r Rheolwyr Teithiau a roddodd lawer o deithiau yn y Senedd i westeion wrth iddynt aros i faterion busnes ddod i ben. Roedd hyn wedi ychwanegu llawer at fwynhad y noson a'u hymweliad â'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd llawer o'r gwesteion yn y Senedd am y tro cyntaf.

  **<u>Cam i'w gymryd</u>:** Ysgrifenyddiaeth y Gangen i ddrafftio llythyr o ddiolch ar ran y Cadeirydd at Dîm Digwyddiadau'r Cynulliad a'r Rheolwyr Teithiau.

- *12 Ionawr – cyflwyniad y Cadeirydd ar weithgareddau Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.*
  Nododd y Cadeirydd yr eitem ddiweddar hon ar agenda'r Pwyllgor uchod (yr oedd Mike German a Jeff Cuthbert yn aelodau ohono) lle'r oedd wedi cyflwyno papur am weithgareddau diweddar y Gangen, a gafodd dderbyniad gwresog.
  Un mater i'w nodi a oedd yn deillio o'r Pwyllgor oedd cwestiwn gan Rhodri Glyn Thomas AC, ynglŷn â sut y mae modd i weithrediaeth y Gangen gyfathrebu'n fwy effeithiol â Changen y CPA yn ehangach ynghylch gweithgareddau a chyfleoedd y Gangen. Cafwyd trafodaeth am y posibilrwydd o estyn gwahoddiad i holl Aelodau'r Cynulliad ddod i gyfarfodydd pwyllgor Gweithredol y Gangen, a goblygiadau ymarferol hyn, fel dod o hyd i ystafell addas i'r aelodau a darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.
  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i
  - sicrhau bod cofnodion o gyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol y Gangen o hyn ymlaen yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol i holl Aelodau'r Cynulliad.
  - cyfeirio at Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol i ganfod a oes unrhyw gyfeiriad at y mater hwn.

- cyd-gysylltu â chyfeillion yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon i gael gwybodaeth beth yw eu dull gweithredu ar y mater a nodi'r hyn a ganfyddir wrth y Cadeirydd.

**<u>Ymweliadau diweddar â/ gan Wledydd y Gymanwlad</u>**

- *Adroddiad llafar gan Mike German ar ymweliad â Lesotho fis Tachwedd diwethaf.*
  Cafwyd adroddiad gan Mike German ar ei ymweliad a Lesotho fis Tachwedd. Roedd diben deuol i'r ymweliad, meddai. Yn gyntaf yn ei swyddogaeth fel Llywydd Dolen Cymru ac yn ail yn cynrychioli Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad i asesu'r cynnydd ac effaith y cymorth technegol a roddwyd yn y gorffennol i wasanaeth Seneddol Lesotho gan Aelodau a swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

  Cyfarfu Mike German ag Aelodau a Swyddogion y Senedd ym Maseru ac anrhydeddwyd ef ag ymweliad ag adeilad newydd y Senedd sydd i'w agor yn fuan ym mhresenoldeb y Llefarydd. Nid oedd dyddiad eto ar gyfer agoriad swyddogol adeilad newydd y senedd ond mae'n debygol y cynhelir ef dros yr haf eleni. Yr oedd yn rhy fuan i ddweud a fyddai gwahoddiad swyddogol yn cael ei anfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fynd i'r agoriad. Dywedodd Mike German ei bod yn amlwg bod Senedd Lesotho wedi elwa o'r cymorth technegol a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru - a soniodd yn benodol am waith cadarnhaol y Pwyllgorau a'u henw da am eu gwaith craffu effeithiol.

  Soniwyd am angen Senedd Lesotho am ragor o gymorth technegol yn y dyfodol, gyda'r cais am arbenigedd ym maes y Gyfraith a Chysylltiadau Cyhoeddus yn cael eu nodi'n benodol.

  Dywedodd Cadeirydd y Gangen y byddai'n amserol yn awr i gael adroddiad/gofnod ffurfiol am yr atborth a'r gwerthusiad o'r holl gymorth a chefnogaeth dechnegol a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Lesotho. Cytunodd Mike German i ysgrifennu'r adroddiad hwn.

  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Mike German i ysgrifennu adroddiad gwerthuso i'w gyflwyno i Bwyllgor Gweithredol y Gangen.

**5. CYNLLUNIO YMLAEN LLAW**

**<u>Cynadleddau i ddod</u>**

- *59fed Seminar San Steffan ar Arferion a Gweithdrefnau Seneddol 7-19 Mawrth 2010*
  Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai un cais yn unig a gafwyd i fynychu Seminar San Steffan sydd i'w chynnal yn fuan. Fodd bynnag, er mai'r gobaith oedd y byddai Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru'n mynd i'r gynhadledd, penderfynwyd nad oedd y cais a gafwyd ar hyn o bryd yn cynnwys achos busnes digon cryf. Felly roedd cais bod y Cadeirydd yn cysylltu â'r Aelod a oedd â diddordeb i gynnig cyfle iddo gyflwyno achos busnes gwell erbyn 25 Ionawr.
  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gysylltu â'r Aelod gyda manylion yr achos busnes ychwanegol y gofynnwyd amdano erbyn y dyddiad cau a oedd wedi'i ymestyn.

- *Cynhadledd BIMR, Ynys Manaw 10-14 Mai 2010.*
  Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau ddyddiadau cynhadledd y Rhanbarth ac mai thema'r Gynhadledd eleni fyddai "*Technoleg a Democratiaeth: Llwyddiannau a Heriau*". Gofynnodd i Ysgrifenyddiaeth y Gangen i roi gwybod i'r holl Aelodau am y cyfle gyda chais bod pob mynegiant diddordeb ag achos busnes i gyd-fynd ag ef cyn bod modd ei ystyried.
  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i roi gwybod i'r Aelodau am y cyfle i gynrychioli Cangen Cymru o'r Gymdeithas yng nghynhadledd BIMR gan roi canllawiau perthnasol ar gyfer y rhai sy'n ymgeisio.

- *56fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Nairobi (Kenya) 10-19 Medi 2010.*
  Roedd yr Ysgrifenyddiaeth am i'r Gangen fod yn ymwybodol bod gohebiaeth wedi'i gael gan Bencadlys Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn gwahodd awgrymiadau am themâu i'w trafod ar gyfer y Gynhadledd sydd i'w chynnal yn Kenya mis Medi eleni. Byddai angen i'r rhain gael eu cyflwyno erbyn 17 Chwefror fel y gallai awgrymiadau gael eu hanfon i'r Pencadlys i'w hystyried gan yr Is-bwyllgor Cynllunio ac Adolygu yng nghyfarfod canol blwyddyn yr IExCo a gynhelir eleni yn Swaziland.

  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i anfon neges i'r holl Aelodau'n gwahodd awgrymiadau ar gyfer thema cynadleddau erbyn y dyddiad cau a nodwyd.

**<u>Digwyddiadau sydd i ddod</u>**

- *Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad – 26 Ionawr.*
  Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad a oedd wedi'i ail-drefnu ac i'w gynnal yr wythnos ganlynol. Roedd yn hanfodol bod cworwm o 10 Aelod yn bresennol i gynnal y Cyfarfod hwn.

- *Diwrnod y Gymanwlad 2010*
  *a) Gwahoddiad i enwebu 2 o bobl ifanc i fynd i ddathliadau'r Gymanwlad yn San Steffan - 8 Mawrth*
  Cytunodd y Gangen y dylem wneud cais unwaith eto am le i ddau o bobl ifanc i gynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn San Steffan ar Ddiwrnod y Gymanwlad, ac y dylai hyn, yn y lle cyntaf, fynd drwy'r Ddraig Ffynci.
  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gysylltu â'r Ddraig Ffynci i roi gwybod iddynt am y cyfle hwn ac i'w gwahodd i enwebu dau o bobl ifanc i gynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn San Steffan ar Ddiwrnod y Gymanwlad.

  *b) Diwrnod y Gymanwlad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - 9 Mawrth* Cytunodd Aelodau'r Gangen, oherwydd bod derbyniad min nos wedi'i gynnal i ddathlu'r Gymanwlad yn 60 mor ddiweddar, ni fyddai'n briodol cynnal derbyniad tebyg ar Ddiwrnod y Gymanwlad eleni. Ffactor arall i'w ystyried oedd y diffyg staff o dîm Digwyddiadau'r Senedd oherwydd agor y Pierhead a'r "Sesiynau'r Pierhead" yn yr wythnos hyd at 6 Mawrth. Fodd bynnag, roedd y Gangen o blaid edrych ar y posibilrwydd o gynnal dadl y Gymanwlad ar thema'r flwyddyn yma sef "Gwyddoniaeth, Technoleg a Chymdeithas" â phobl ifanc yn Siambr Hywel y Cynulliad.
  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gyd-gysylltu a chydweithwyr yng Ngwasanaeth Addysg y Cynulliad Cenedlaethol i hwyluso'r digwyddiad hwn.

**<u>Ymweliadau sydd i ddod</u> – Ymweliadau a drefnwyd ac a gynigiwyd.**

- *Dirprwyaeth o Gynulliad Gwladwriaeth Kwara – 28 Ionawr 2010*
  Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am ymweliad a drefnwyd gan gynrychiolwyr Cynulliad Gwladwriaeth Kwara (Nigeria).
  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gadarnhau ag Aelodau fanylion yr ymweliad fel bod Aelodau ar gael i gyfarfod a'r ddirprwyaeth.

- *Dirprwy Uchel Gomisiynydd Awstralia, Adam McCarthy - 25 Mawrth 2010*
  Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y byddai Dirprwy Uchel Gomisiynydd Awstralia, Mr Adam McCarthy yn ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol ar 25 Mawrth. Robert Lloyd-Williams a oedd wedi trefnu'r rhaglen a byddai'n darparu manylion yr ymweliad i Ysgrifenyddiaeth y Gangen er mwyn iddynt eu rhannu â Phwyllgor Gweithredol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y cyfarfod nesaf.

**<u>Cam i'w gymryd</u>***:* Ysgrifenyddiaeth y Gangen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gangen am yr ymweliad hwn yng nghyfarfod nesaf y Gangen Weithredol fel bod yr Aelodau sydd ar gael yn trefnu i gyfarfod a'r Dirprwy Uchel Gomisiynydd.

- *Gwahoddiad gan Senedd Awstralia* – y wybodaeth ddiweddaraf. Nododd y Cadeirydd nad oedd dim gohebiaeth bellach gan Gangen Awstralia o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a'i bod yn anodd rhoi dyddiadau posibl ar gyfer ymweliad gan Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ag Awstralia gan ei bod yn gyfnod o doriad ar y Senedd honno ar hyn o bryd. Sylweddolwyd y byddai unrhyw ymweliad yn y dyfodol yn realistig yn unig ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig.

**Cam i'w gymryd**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ynghylch yr ymweliad posibl hwn.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- **Dydd Mawrth 9 Chwefror**, 12:30pm (Swyddfa'r Prif Weithredwr a'r Clerc, y Cwrt)
  Cadarnhaodd Pwyllgor Gweithredol y Gangen y byddai'n cynnull i ddewis cynrychiolwyr o Gangen Cymru'r Gymdeithas i fynd i Gynhadledd BIMR yn Ynys Manaw ym mis Mai.

- **Dydd Mawrth, Mawrth**, 12:30pm – cyfarfod ffurfiol nesaf Pwyllgor Gweithredol y Gangen

## 7. UNRHYW FATER ARALL

- *Gohebiaeth gan Justyne Caruana* (BIMR CWP)
  Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau bod Justyne Caruana - sydd newydd ei phenodi fel cynrychiolydd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR (o Malta) wedi cysylltu â holl Aelodau Benywaidd y tair cangen ar ddeg o'r rhanbarth i ofyn iddynt awgrymu unrhyw bynciau neu faterion o ddiddordeb i ferched y maent am eu codi â hi. Yr oedd Is-Lywydd a Chadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas y Gymanwlad o'r farn mai'r peth gorau oedd i Ysgrifenyddiaeth y Gangen lunio ymateb gan Gangen Cymru. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y byddai'r BIMR sydd i ddigwydd yn fuan yn rhoi cyfle i ddirprwyaeth Cangen Cymru i wahodd Justyne i ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru rywdro yn y dyfodol i gyfarfod ag Aelodau Benywaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
  **Cam i'w gymryd**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i lunio ymateb y Gangen i Justyne Caruana.

- *Y Gweithgor Cysylltiadau Rhyngwladol*
  Dywedodd Natalie Drury-Styles wrth y Gangen bod gweithgor, a oedd yn cynnwys staff mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru/rhanddeiliaid wedi'i sefydlu i asesu'r sefyllfa ar hyn o bryd ynghylch gweithgaredd rhyngwladol ac i sicrhau bod dull gweithredu cydgysylltiedig o ran gwaith rhyngwladol y Cynulliad er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl.

Ysgrifenyddiaeth y Gangen